**Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**
—
**Committee for the Scrutiny of the First Minister**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
CraffuPW@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCraffuPW
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
ScrutinyFM@senedd.wales
senedd.wales/SeneddScrutinyFM
0300 200 6565

Mark Drakeford, y Prif Weinidog
Drwy e-bost

Dyddiad | Date:

Pwnc | Subject: Cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Annwyl Mark

Diolch am fod yn bresennol y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 8 Rhagfyr 2023. Roedd hi'n sesiwn ddefnyddiol ac addysgiadol.

Fel y gwyddoch, mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 22 Mawrth 2024, yn fuan ar ôl ichi roi'r gorau i fod yn Brif Weinidog. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i ystyried thema Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal yn y cyfarfod hwn, a hoffai eich gwahodd i'r cyfarfod i fyfyrio ar y gwaith y mae eich Llywodraeth wedi'i wneud yn y maes hwn. At hynny, bydd y Pwyllgor yn neilltuo amser yn y cyfarfod er mwyn cynnal gwaith craffu cyffredinol ar eich cyfnod yn y swydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu estyn gwahoddiad i'r Prif Weinidog newydd fod yn bresennol, a nodi ei flaenoriaethau pan fydd yn ei swydd, gan ei fod yn debygol o gael ei benodi ar 20 Mawrth 2024. Bwriedir cynnal y cyfarfod hwn yng Nghaerdydd.

Roedd rhai meysydd y byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth amdanynt yn dilyn y sesiwn 'yn Gynnes â Gwala y Gaeaf Hwn' yn y cyfarfod diwethaf:

- Nododd y Pwyllgor y rhesymau a roddwyd mewn perthynas â'r llithriadau yn y rhaglen hon, a byddai'n croesawu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ar gael am y llithriadau hyn. At hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd bod y rhaglen yn cynnal gwaith gwahanol i gynlluniau Llywodraeth y DU.
- Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ag awdurdodau lleol o ran y rhaglen EcoFlex a chadarnhad ynghylch a fyddai awdurdodau lleol yn gallu elwa o'r rhaglen pe baent yn mabwysiadu dull rhanbarthol, fel sydd wedi digwydd yn Ne Cymru.
- Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni a ragwelir ar gyfer adolygiad Ofgem o daliadau sefydlog, yn enwedig mewn perthynas â Gogledd Cymru, sydd â thaliadau sefydlog uwch na'r cyfartaledd.

Yn ystod y sesiwn ar y Cytundeb Cydweithio yn y cyfarfod ar 8 Rhagfyr, gwnaethoch gyfeirio at 13 maes o'r Cytundeb Cydweithio sydd â chyllid ynghlwm wrthynt, ac egluro yn y cyfarfod mai'r canlynol yw'r meysydd o dan sylw:

- Prydau ysgol am ddim;
- gofal plant dwyflwydd oed;
- Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy;
- diogelwch adeiladau;
- creu Ynni Cymru, cwmni ynni cyhoeddus i Gymru;
- buddsoddiad cyfalaf o ran llifogydd;
- astudiaethau dichonoldeb trafnidiaeth gyhoeddus;
- darlledu;
- strategaeth diwylliant;
- cymorth ariannol ar gyfer y cyfryngau;
- rhaglen Arfor;
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; a hefyd
- iechyd meddwl.

Dyma ofyn ichi ddarparu manylion y symiau cyllid a ddyrannwyd i bob un o'r 13 maes, yng nghyllidebau 2022-23, 2023-24 a 2024-25, yn ogystal â rhoi gwybod ym mha Brif Grwpiau Gwariant, a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, y mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys. Gwnaethoch gyfeirio sawl gwaith at gyllid yn cael ei neilltuo a'i fonitro ar gyfer tanwariant posibl, felly mae'n debyg y gellir ei fesur fel hyn.

Yn gywir

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.